Cymdeithas Edward Llwyd

Rhifyn Pedwar

# Llên Natur

www.llennatur.com

*Gwefan i Naturiaethwyr ac i Bobl Cymru*

*Golygydd: Duncan Brown, Cysodi: Ifor Williams.* ***Ychwanegwch ddeunydd i - llennatur@yahoo.co.uk***



Yr Wyddfa, 23ain o Fawrth 2008, ac o Ebrill 11eg i'r 17eg 2008 Llun: Ifor Williams

**Ymateb arall i'n cwestiwn yn y rhifyn diwethaf "beth oedd eich profiad chi o ddaeargryn 1984?"**

***Profiad Tom Jones (Golan)***

"Cofiaf innau'r ddaeargryn, y cyntaf yn y bore 'chydig cyn codi. Meddyliais fod fy ngwely am fynd allan trwy'r ffenest. Pan ddaeth yr ail roeddwn yn eistedd ar y soffa a dwi'n deud wrthych, mi ddaeth fy stumog i fyny i'm gwddw a theimlais yn sâl fel sâl môr. Gollyngodd gegin gefn y tŷ ac mae agen o hanner modfedd i'w weld yno o hyd rhwng y tô a wal y tŷ.

***....ac o lwch y Sahara,***

Cofiaf hefyd fynd allan un gyda'r nôs a sylwi ar yr awyr i'r gogledd o'r tŷ yma, ac fe roedd yn binc goch. Galwais ar fy nghymydog allan i'w weld ac fe ddaeth y ddau o honom i'r un penderfyniad, wedi edrych trwy lyfrau oedd ganddom, mai llwch o'r Sahara oedd hwn i fyny yn yr ail awyr. D'eudwyd gan rai gwybodusion mai'r *Northern Lights* oedd o ond ni symydai hwn yn yr un modd, ac fe'i gwelwyd i lawr cyn belled â Choris ger Machynlleth. Nid yw Golau'r Gogledd yn cyrraedd cyn belled â hyn. Y mannau isaf ym Mhrydain y'i gwelir yn ôl beth a glywais yw Ardal y Llynnoedd a gogledd Iwerddon lle'i gwelais fy hun wrth fynd trosodd yno un tro. Rwyf wedi bod yn ffodus iawn o fod allan yn y nôs yng ngogledd yr Alban ac wedi gweld Golau'r Gogledd yn ei anterth yno ac nid anghofiaf ef byth."

-----

**Os oeddech chi'n meddwl fod y gwanwyn yma yn oer, ystyriwch hwn.............**

***The wind NE, blowing fresh and excessive cold and scorching all day. Several people are drove to the necessity of unroofing of barns, stables, cowhouses to make use of old thatch to give their cattle to keep them alive, their fodder being all eaten and the fields all scorched up***

**Dyddiadur William Bwcle Brynddu, Llanfechell 01/04/1771**

**Pryd mae afalau surion yn blodeuo ?**


Ar y 27ain o Ebrill 1912 dyma ysgrifennodd Jess i'w theulu yn Llandudno ar gerdyn post tra'n mwynhau ei hymweliad a'r Rhaeadr Fawr, Aber:

*Aber Falls: lunchtime: We are sitting up by the falls - it looks lovely…I shall be very busy all the way back as I have seen several blossom trees and the girls think I shall have to climb them…*

Dwi'n eithaf cyfarwydd â dyffryn Abergwyngregyn, ac mi hoffwn wybod beth oedd y tu ôl i'r neges hwn. Ai ar gyfer eu tocio a'u gosod fel addurn mewn fâs ar seld oedd bwriad Jess wrth sôn am y *blossom trees*? Pa fath o goed oeddynt? Ceirios? (...dim ond tair coeden geirios sydd yn tyfu yn y dyffryn heddiw ac mae nhw'n bell o brif lwybr y rhaeadr. A phu'n bynnag, mae blodau'r ceirios heibio eu gorau erbyn diwedd Ebrill). Draenen ddu? (...digon cyffredin yn y dyffryn ond eto heibio eu gorau. ..dringo nhw? - go brin). Draenen wen? (...posibl - ond eto, anodd i'w dringo). Yr unig goeden sydd yn ddigon mawr i'w dringo, digon prydferth ei blodau i roi mewn fâs, sydd, ac a oedd yn nghyfnod Jess, yn ddigon niferus yn nyffryn Abergwyngregyn i gael eu cyfri yn "several", yw'r afallen, neu'r pren afalau surion. Ond onid oedd diwedd mis Ebrill yn rhy gynnar i flodau'r goeden hon?

Bum yn cadw rhyw fath o gofnod ers tro o dymor blodeuo'r coed afalau surion, yn Aber ac mewn mannau eraill. Dyma nhw yn eu trefn: blodau coed afalau gwyllt yn helaeth yn yr ardal (Waunfawr ac Aber) ar yr 8ed Mai 1995; Cae Dafydd 1af Mai 2002 ; Aber 11eg Mai 2006; Aber, yn dechrau llenwi, 2il Fai 2007, dechrau llenwi yn y Waunfawr ac yn Aber erbyn 17 Fai 2004. Ymddengys fod afalau Jess yn 1912 yn eithaf cynnar, a ninnau wrth gwrs yn disgwyl i'r tymor blodeuo yn gyffredinol ddod yn gynt heddiw na chanrif yn ôl. D.B.

## Y Sudd yn Rhedeg



Llun: *Illustrated London News* 16 Ebrill 1859

Gwelodd y gwanwyn cynnar brysurdeb mawr ar un adeg yng nghoedwigoedd Cymru. Dyma pryd yr oedd sudd y coed yn codi, a rhisgl y dderwen o'r herwydd yn haws ei "bilio". Yma yng ngorllewin Ewrop, defnyddiwyd rhisgl derw i "biclo" neu drin lledr ers o leiaf y Canol Oesoedd, diolch i'r taninau asidig sydd yn rhan o gyfansoddiad y dderwen yn fwy nac unrhyw un o'n coed cynhenid eraill. Mae'n un o'n diwydiannau coll erbyn hyn, ac aeth rhialtwch a miri'r gwaith yng nghanol heulwen ffres y gwanwyn bellach yn angof. Ymunai pawb yn y cynhaeaf, gyda chlecian y pilbrenni yn diasbedain rhwng y boncyffion o fore gwyn tan nos. Meddai Francis Kilvert, rheithor Cwm Cleirwy, ar 24 Ebrill 1872: *the country is filled with the ringing strokes of the chopping axes...we heard their sturdy strokes from the Castle Clump after it had grown dark. The men were working late felling oak, as the sap is running fast and the bark strips well.*

Roedd mwy nac un ffordd o risglo coeden. Yn ardal Llanymddyfri cafodd y goeden ei rhisglo ar ei thraed, gyda'r merched yn gweithio o ysgolion a'r dynion ifanc mwy mentrus yn cwblhau'r gwaith ymhlith y canghennau uchel. Dro arall torrid y goeden o flaen llaw, cyn i bawb fynd am y cyntaf i risglo drostynt eu hunain .

Dim ond enwau lleoedd sydd gennym yn gof bellach o'r diwydiant rhisglo - enwau fel Erw'r Barcws (Sir Amwythig), Gwern y Rhisg (Llanrwst), Hafod y Rhisg (Llanfaglan a Beddgelert), Rhisga (Caerdydd, mae'r enw hwn yn mynd yn ôl i 1330), Barcdy (Talsarnau), Ty'r Barcer (Fflint), Nant Rhisglog (Maldwyn), Rhiw Rhisglen (Caerfyrddin) a myrdd o rai eraill. Ac mae hen felin risgl Rhaeadr wedi ei "biclo" ei hun erbyn hyn yn Amgueddfa Sain Ffagan. D.B.

***Cofnod o ardal Llanfaglan***

Hafod y Rhisg, adfail ar dir Plas Llanfaglan heddiw. Cofnod o gyfrif gwerthu rhisgl coed ar y 14[ain] o Dachwedd 1806: "Derw (182) £69/12/6, Rhisgl £72/0/0, “Cord” £6/0/0".....Mwy na thebyg, mynd i’r tanws byddai’r rhisg yng Nghaernarfon. I.W.

## Dail Sgyrfi

Yn yr hen amser clefyd morwyr yn bennaf oedd y sgyrfi, neu'r "llwg", o achos y diffyg fitamin C yn eu diet. Cawn ein fitamin C ninnau o orennau a lemonau yn fwy na dim a bu'r rheiny ar gael i bobl a allai eu fforddio ers cyfnod y Croesgadau. Ond dail y sgyrfi, neu'r llwylys (oherwydd y ffurf llwy ar eu dail) oedd prif ffynhonnell y fitamin i forwyr gan eu bod yn tyfu'n helaeth yn heli'r traeth. Mae nifer o fathau o ddail sgyrfi i'w cael, dau ohonynt yn gyffredin ar draethau Cymru neu yng nghyffiniau glan y môr.




Llun: Twm Elias



Yn ogystal ag ar y traeth, mae blodau'r llwylys cyffredin *Cochlearia officinalis* (fel mae *officinalis* yn awgrymu, yr un mwyaf bwytadwy) yn tyfu yn y cloddiau cyfagos, fel yma ar y lôn i'r gorllewin o Glynnog Fawr, Eifionydd. Mae'n debyg y bydd y llun hwn yn rhan o hanes cyn bo hir gan y bydd y clawdd yma yn diflannu i wneud lle i'r lôn osgoi newydd.

Mae'r llwylys Denmarc hefyd wedi dechrau efelychu castiau'r llwylys cyffredin. Ers i ni ddechrau halltu'r ffyrdd rhag rhew'r gaeaf mae hwn yn hen law ar fanteisio ar yr halen i ymledu ar hyd prif lonydd y wlad. I lwylys Denmarc, mae cwterydd yr M4, yr A55 a sawl priffordd rhwng y ddwy, yn ddim amgenach na thraeth. Gosodwch eich *deck-chair* ar y pafin wrth law ac wrth sipian eich hufen ia cymerwch hefyd ambell ddeilen o'r llwylys - rhag i chi gael y sgyrfi, i chi gael deall! D.B.





1, 2 a 3 yw'r llefydd y tynnwyd pob llun, yn edrych i'r chwith fel gwelwch y map










Cawsom y fraint yn ddiweddar o dderbyn cofnodion botanegol Mrs Jean Mathews (cyn athrawes Celf yn Ysgol Brynrefail). Maen nhw'n cynnwys mapiau gyda sylwadau, a chofnodion lu o'i chyfnod yn byw yn ardal Llanfaglan.

Dyma rai o'i chofnodion mwyaf diddorol o ochr y lôn o Groeslon yr Efail, Llanfaglan i New Lodge, Bontnewydd:

*WATER CROWFOOT*
*Ranunculus aquatilis 1965 in Beuno stream as joining Gwyrfai...not present in 1975, stream disturbed by building*

*WELSH POPPY*
*Mecanopsis cambrica 1965 at base of wall at S end of lane...not present in lane 1985.*

*WILDHOP*
*Humules lupulus (twines clockwise) 1965 growing on cranked rails on Z bend, was killed by herbicide in 1976*

*HIMALAYAN BALSAM*
*Impatiens glandulifera first present 1969, now well established and increasing...still increasing 1985.* Mae yna elfen hanesyddol yma, gan ei fod yn gofnod o ddyfodiad cyntaf jac-y-neidiwr i'r ardal. Mae'r gweddill yn hanes ys dwedent!

*BRANCHED BURREED*
*Sparganium erectum in Sling stream June - August 1965*

*COMMON CENTURY [sic.] Centaurium erythrea 1965 common on clawdd tops and on steep bank...declined steadily...1977 two flowering plants left, 1982 none.*

Dyma grynodeb o waith Jean:.

| RHYWOGAETHAU | CYNNYDD | DIM NEWID | LLEIHAD | PRESENNOL 1965 ac 1985 ond heb eu cyfrif wedyn. | DIFLANIAD | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer | 11 | 6 | 13 | 58 | 39 | 127 |
| Canran | 8.7 | 4.7 | 10.2 | 45.7 | 30.7 | 100 |



Ar y chwith, llun Alan Pritchard eleni o'r tormaen porffor yng Nghwm Idwal yn ei flodau ym mis Mawrth eleni.

Meddai Alan, "llun o'r tormaen hyd yn oed yn cynnwys y tameidiau bach gwyn ar y dail. Medd yr arbenigwyr 'calch yn llifo o'r garreg trwy'r planhigyn yw'r rhain' ".

Y tormaen porffor yw'r blodyn Arctig Alpaidd cyntaf y flwyddyn i flodeuo. Ewch i'w weld yn ei dymor yn Eryri, Llyn Gafr, Cadair Idris ac ym Mannau Brycheiniog

**Cofnodi gwenoliaid**

Cyrhaeddodd gwennol gyntaf blwyddyn 1736 bentref bach Stratton Strawless yn Norfolk ar y 10fed Ebrill. Mae'r ffaith yn hynod nid yn ei hawl ei hunan, ond am i'r dyddiadurwr Robert Marsham gofnodi'r ffaith. Ni feddyliodd neb (yn Lloegr o leiaf) am gofnodi'r fath wybodaeth ar bapur o'r blaen. Felly y ganwyd, yn y modd mwyaf syml a dirodres, yr wyddor sydd heddiw yn mynd â chymaint o'n sylw fel y mae'r hinsawdd yn newid. Enw'r wyddor yw ffenoleg ac mae pawb sydd yn clywed y gog am y tro cyntaf pob blwyddyn ac yn hysbysu eraill o'r ffaith, yn ffenolegydd, yn aml heb wybod ystyr y gair.

Bu Marsham a'r naturiaethwr y Parchedig Gilbert White yn gohebu a'i gilydd. Sylwodd White fod y wennol yn cyrraedd swydd Hampshire o gwmpas y 13 Ebrill. Rwyf innau hefyd wedi cofnodi dyfodiad y wennol dros y blynyddoedd. Dyma rai o'r cofnodion:

12 Ebrill 1987 gwenoliaid yn hedfan tua'r gogledd ar hyd traeth y Belan [ar raddfa] un pob munud

29 Mawrth 1989 gwenoliaid yn hedfan dros Fwlch yr Oerddrws, Dinas Mawddwy [gwenoliaid cynta'r flwyddyn i mi weld] a phedwar diwrnod yn ddiweddarach, 3 Ebrill 1989 Joan Addyman yn dweud iddi weld gwenoliaid dros Fwlch yr Oerddrws

I fod yn gywir, mae'n debyg y dylem wahaniaethu rhwng y gwenoliaid sydd ar eu ffordd i barthau mwy gogleddol oddi wrth y rhai sydd yma i aros. Dyma rai o'm cofnodion o'r ail gategori: 22 Ebrill 1994 gwennol gyntaf D. Elias; 11 Ebrill 2001; Gill wedi gweld y wennol gyntaf yn Waun ddoe; 19 Ebrill 2001 gwennol yn Aber [-gwyngregyn]- cynta i mi; 29 Ebrill 2003 gwennol gynta Waunfawr ddoe; 26 Ebrill 2003 Sidmouth…tro ar hyd llwybr yr arfordir, gwenoliaid yn cyrraedd o'r môr; 7 Ebrill 2006. treulio bore ddoe yng nghyffiniau Llyn Rhos Ddu a Thywyn Niwbwrch .... gwenoliaid y glennydd a gwennoliaid dros y llyn; 18 Ebrill 2007 gwennol gyntaf yma ddoe er i ni weld nifer yn Nyfnaint yr wythnos diwethaf.

Gellir dyfalu tri pheth o'r dystiolaeth ffwrdd-â-hi hon. Yn gyntaf mae'r gwennoliaid tra'n mudo yn fwy tebyg o gael eu gweld mewn mannau megis traethau a bylchau yn y mynyddoedd na'r adar sydd wedi cyrraedd. Yn ail, nid oes tystiolaeth yma fod dyddiad cyrraedd y wennol â Phrydain yn wahanol i'r hyn yr oedd o yn y ddeunawfed ganrif. Ac yn drydydd, mae gwennoliaid yn cyrraedd gogledd Cymru yn hwyrach efallai nag y maen nhw'n cyrraedd de Lloegr. D.B.

Pryd welsoch chi eich wennol gyntaf chi - eleni, neu yn y blynyddoedd a fu? *Gol.*



Blodyn sydd yn dod efo'r wennol. Llun: Mike Alexander

**Drudws, Drudwy, Aderyn Diarth, Drudan, Trwdws Dyrnod yr Eira, Trwdan Dridw, Drudwst, Driddus, Aderyn Du'r Eira.......am y gwelwch chi.**

Yn un o rifynnau cyntaf y *Journal of Animal Ecology* (Rhif 8, 1933) cyhoeddodd B.J. Marples canlyniadau arolwg adaryddol cynnar (a'r unig un o'i fath hyd heddiw mae'n debyg) o glwydfannau drudwennod ym Mhrydain o'r enw *The Winter Starling Roosts of Great Britain 1932-33.* Yma rydym yn ail gyhoeddi canlyniadau gwreiddiol yr arolwg yng Nghymru er mwyn ei gymharu a'r sefyllfa bresennol. Sylwch nad oedd clwydfan anferth a dramatic drudwennod pier Aberystwyth yn bod yr adeg honno, a chredai Marples iddo lwyddo i gofnodi y rhan fwyaf o glwydfannau Prydain.

Wyddoch chi am glwydfannau drudwennod? Ymhle? Faint o adar (100oedd, 1000oedd, mwy?). Rhowch floedd!

| Sir (BJM) | Safle (BJM) | Safle (Cymraeg) |
|---|---|---|
| *Anglesey* | *Maelog Lake* | Llyn Maelog |
| *Brecon* | *Llangorse Lake* | Llyn Syfaddan |
| *Cardigan* | *Cardigan* | Aberteifi |
| *Carmarthen* | *Carmarthen* | Caerfyrddin |
| *Carmarthen* | *Whiteland* | Hendy-gwyn |
| *Carnarvon* | *Aberdaron* | Aberdaron |
| *Carnarvon* | *Afon Wen* | Afon Wen |
| *Carnarvon* | *Great Orme* | Pen y Gogarth |
| *Flint* | *Prestatyn* | Prestatyn |
| *Glamorgan* | *Oxwich* | |
| *Glamorgan* | *Swansea* | Abertawe |
| *Glamorgan* | *St Fagans* | Sain Ffagan |
| *Glamorgan* | *Barry Island* | Ynys y Barri |
| *Glamorgan* | *Rhymery Viaduct* | Pont Cario Dŵr Rhymeri (?) |
| *Merioneth* | *Aberdovey* | Aberdyfi |
| *Monmouth* | *Tredegar Estate Newport* | YstâdTredegyr, Casnewydd |
| *Montgomery* | *Llanymynech* | Llanymynech |
| *Pembroke* | *Upton Bottoms* | |
| *Pembroke* | *Kingsbridge* | |
| *Pembroke* | *Fishguard* | Abergwaun |
| *Pembroke* | *Skokholm* | Sgogwm |
| *Radnor Gladestrey* | *Llanfair* | Llythynwg |



Dosbarthiad clwydfannau drudwennod yng Nghymru !932 - 1933